



Sut mae adran eich llywodraeth yn gweithio i leihau effaith tlodi ac anghydraddoldebau?

21 Hydref 2024

Rydym wedi dod at ein gilydd fel sefydliadau 47 i ofyn ichi sut mae adran eich llywodraeth yn gweithio i leihau effaith anghydraddoldebau.

Mae gan Gymru un o'r [cyfraddau tlodi uchaf ymhlith pedair gwlad y DU](#), gyda 29% o blant a 21% o bobl o oedran gweithio yn byw mewn tlodi. Mae hyn wedi'i ysgogi gan y cyfrannau cymharol uchel o oedolion o oedran gweithio sy'n gweithio mewn swyddi â chyflog is, a chyfradd anweithgarwch economaidd uchel, 28% yn y tri mis hyd at Ebrill 2024.

Mae'r argyfwng costau byw wedi gwaethygu tlodi ac anghydraddoldebau yng Nghymru. Yn ôl [Sefydliad Bevan](#), mae nifer fawr o bobl yn mynd heb hanfodion, a chanfu arolwg diweddar gan YouGov [Barnardo's](#) fod 30% o rieni'n cael trafferth fforddio digon o fwyd i'w plant a bod 56% yn cymryd camau i leihau eu biliau bwyd.

Nid yw'r argyfwng costau byw yn effeithio ar bawb yng Nghymru yn gyfartal. Mae maint y caledi a wynebir gan rai grwpiau yn peri pryder. Dengys [data](#) fod marwolaethau ychwanegol y gaeaf yn uwch mewn ardaloedd â lefelau uchel o amddifadedd. Canfu'r [Sefydliad Ecwiti Iechyd](#) yn ddiweddar fod y rhai sy'n byw mewn dinasoedd yng Nghymru a Lloegr yn wynebu risg uwch o farwolaethau oherwydd oerfel na'r rhai sy'n byw yn ninasoedd Norwy, Denmarc, y Ffindir a Sweden.

Mae Archwilio Cymru wedi galw tlodi yn yr [her fawr sy'n wynebu pob haen o lywodraeth](#).

Mae dirfawr angen cynllun cyflawni cenedlaethol i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb.

Mae ein sefydliadau'n galw am gynllun cyflawni cenedlaethol cydgysylltiedig sy'n nodi cerrig milltir, llinellau amser a thargedau clir sy'n manylu ar yr hyn y mae pob adran yn Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o fewn eu cylch gwaith, a sut y mae Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion yn gweithio gyda'i gilydd i leihau effaith tlodi ac amddifadedd ar bobl Cymru.

Wedi'i arwain gan y Prif Weinidog ac wedi'i ysgrifennu ar y cyd â rhanddeiliaid allanol, dylai'r cynllun hwn gael ei lywio gan brofiad byw yn ogystal â data ystadegol gwrthrychol.



Confedderasiwn GIG Cymru
Cynghrair Iechyd a Lles

Mewn partneriaeth â'r:



Fel y gwyddoch, mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus – gan gynnwys Llywodraeth Cymru – i feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

Yn 2021, gwnaeth Llywodraeth Cymru hefyd ddeddfu'r [ddyletswydd economaidd-gymdeithasol](#), sydd â'r nod o wella anghydraddoldeb o ran canlyniadau i bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Ar ddiwedd 2023 hefyd lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar [Aseidiadau o'r Effaith ar Iechyd](#), ond mae'r aseidiadau hyn yn annhebygol o gael eu gweithredu am beth amser. Dywedwyd wrthym nad oes angen cynllun trawslywodraethol oherwydd bod yr offer hyn eisoes yn eu lle, neu ar y ffordd.

Efallai bod yr offer yn eu lle, ond a ydyn nhw'n cael eu defnyddio'n effeithiol?

'Mae angen gweithredu cydamserol ar lefelau lluosog [o lywodraeth]: cenhadaeth genedlaethol barhaus i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb; partneriaeth leol a chenedlaethol newydd i greu'r amodau ar gyfer llwyddiant y system; ac arweinyddiaeth leol i feithrin yr aflonyddwch sydd ei angen i gynnal llwyddiant.' ([King's Fund](#))

Ym mis Gorffennaf 2022, daeth llawer o'n [sefydliadau ynghyd](#) i gyhoeddi papur ar yr argyfwng costau byw a'r cynnydd mewn anghydraddoldebau yng Nghymru. Galwodd y papur ar Lywodraeth Cymru i gydgrynhoi ymrwymadau ar leihau anghydraddoldebau a mapio'r gweithgarwch presennol ar leihau tlodi er mwyn gwella atebolrwydd trawslywodraethol, darparu canllawiau gweithredu cenedlaethol manylach i gyrff cyflawni lleol, a chyflwyno rheoliadau asesu'r effaith ar iechyd fel blaenoriaeth.

"Mae lleihau anghydraddoldebau iechyd yn un o fy mlaenoriaethau allweddol fel Gweinidog". [Eluned Morgan AS, 2022](#)

Yn 2023, daeth llawer o'n [sefydliadau at ei gilydd](#) eto i ofyn sut roedd adrannau'r llywodraeth yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Gyda phenodiad Prif Weinidog a Chabinet newydd rydym yn gofyn eto sut y bydd adrannau yn lleihau effaith tlodi ac anghydraddoldebau.

"Byddwn yn parhau i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol iechyd er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar sut y gall y penderfyniadau ehangach fel gwaith, addysg a thai wella iechyd a thegwch." [Ymateb Llywodraeth Cymru](#) i Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn



Yn [naratif cyllideb 2024–25](#), mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y ‘byddwn yn canolbwyntio cyllid lle bydd yn cael yr effaith fwyaf ar fynd i’r afael ag anghydraddoldeb a gwahaniaethu a hyrwyddo hawliau dynol.’

Fodd bynnag, nid oes unrhyw esboniad cyffredinol yn unrhyw un o’r dogfennau hyn ynghylch sut y bydd gwaith i fynd i’r afael ag anghydraddoldeb yn gydgyssylltiedig, sut y caiff canlyniadau eu mesur a sut y bydd Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion yn cael eu dal yn atebol am gyflawni newid.

Gwyddom, er enghraifft, fod tai gwael, ansawdd bwyd, diogelwch cymunedol, incwm isel, tloedi tanwydd, hiliaeth a gwahaniaethu, cysylltiadau trafnidiaeth gwael a llygredd aer i gyd yn cael effaith fawr ar les a chanlyniadau pobl.

‘Mae [tystiolaeth](#) yn dangos y gall dull cynhwysfawr o fynd i’r afael ag [anghydraddoldebau] wneud gwahaniaeth. Mae angen gweithredu cydunol, systematig ar draws sawl ffrynt.’ ([King’s Fund](#))

Nid yw hon yn ddull digynsail. Mae wedi ei wneud o'r blaen.

Ym mis Ionawr 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y [strategaeth tloedi plant](#), sy’n ceisio ‘sicrhau integreiddio cryfach ar draws ein polisiau, ein rhaglenni a’n cynlluniau gweithredu cenedlaethol ac i gefnogi cydweithredu ar lefel ranbarthol a lleol’.

Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y [cynllun plant a phobl ifanc](#), sy’n cydgrynhoi blaenoriaethau’r llywodraeth ac yn meithrin gweithio traws-weinidogol. Cafodd hwn ei ddiweddarau yn 2024 gan ddangos bod angen cydgrynhoi blaenoriaethau o hyd yn uchelgais o fewn llywodraeth Cymru.

Nawr rydym yn gofyn ichi ysgrifennu atom gyda gwybodaeth fanylach am sut yr ydych chi a'ch swyddogion yn gweithio i leihau effaith anghydraddoldebau a thloedi ar draws eich portffolio.

Hoffem wybod:

1. Sut yr ydych chi a’ch swyddogion yn cyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu 2021–2026 i ‘symud i ddileu anghydraddoldeb’?
2. Sut ydych chi a'ch swyddogion yn gweithio gydag adrannau eraill o'r llywodraeth i wneud y mwyaf o effaith eich gwaith?
3. Sut yr ydych chi a’ch swyddogion yn defnyddio’r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i sicrhau bod penderfyniadau strategol a wneir gan eich adran yn mynd i’r afael ag anghydraddoldeb o ran canlyniadau?



Welsh NHS Confederation
Health and Wellbeing Alliance

Mewn partneriaeth â'r:



Byddem yn hapus iawn i gwrdd â chi i drafod y gwaith hwn.

Edrychwn ymlaen at glywed oddi wrthyhch.

Yn y cyfamser, mae croeso i chi gysylltu â ni gydag unrhyw gwestiynau.

Mae'r llythyr hwn wedi'i lofnodi gan:

ABPI Cymru

Anabledd Dysgu Cymru

Asthma + Lung UK Cymru

BMA Cymru Wales

Coeliac UK

Coleg Brenhinol Llawfeddygon Caeredin

Coleg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr

Coleg Brenhinol Lleferydd ac Iaith

Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd

Plant

Coleg Brenhinol Podiatreg

Coleg Brenhinol y Meddygon

Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu

Coleg Brenhinol y Nyrsys

Coleg Brenhinol y Patholegwyr

Coleg Brenhinol y Seiciatryddion

Coleg Brenhinol y Therapyddion

Galwedigaethol

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Cymru

Comisiynydd Plant Cymru

Community Leisure UK

Confederasiwn GIG Cymru

Crohn's & Colitis UK

Cymdeithas Brydeinig ar gyfer Methiant

y Galon

Cymdeithas Fferyllol Frenhinol

Cymdeithas Seicolegol Prydain

Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi

Cymdeithas Strôc Cymru

Cymru Versus Arthritis

Cyngor ar Bopeth

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Diabetes UK Cymru

Gofal a Thrwsio Cymru

Gofal Canser Tenovus

Gofalwyr Cymru

Gwasanaeth Cyngori Ieuencid

Cenedlaethol NYAS Cymru

Home-Start Cymru

Marie Curie Cymru

Mencap Cymru

MS Society Cymru

Parkinson's UK Cymru

Plant yng Nghymru

Prostate Cancer UK

RNIB Cymru

Samaritans Cymru

Tai Pawb

Triniaeth Deg i Ferched Cymru

Ymchwil Canser y DU

Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru



Confederasiwn GIG Cymru
Cynghrair Iechyd a Lles

Mewn partneriaeth â'r:



Coleg Brenhinol
Pediateg a Iechyd Plant
Cymru

Yn arwain y ffordd ar Iechyd Plant

Ynglŷn â'n gwaith: Mae is-grŵp Cynghrair Iechyd a Lles Confederasiwn GIG Cymru ar anghydraddoldebau iechyd yn cael ei gynnull gan y Coleg Brenhinol Pediateg ac Iechyd Plant a RCGP Cymru. Mae'r is-grŵp wedi cyhoeddi [Mind the gap: what's stopping change?](#), a gymeradwywyd gan 50 o sefydliadau ym mis Gorffennaf 2022. Yn ddiweddarach yr un flwyddyn, cyhoeddwyd [Everything affects health](#), sy'n disgrifio sut mae sefydliadau o bob rhan o Gymru yn cydweithio ar draws iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, tai, y celfyddydau, cyngor ar fudd-daliadau a lles, trafniadaeth, unigrwydd ac arwahanrwydd, newid hinsawdd, llygredd aer a llawer mwy.

[Welsh NHS Confederation Health and Wellbeing Alliance](#)
[@RCPCHWales](#)
[@WelshConfed](#)
[#EverythingAffectsHealth](#)